# Egluro'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol

**Mae'r galw am ynni yn newid ym Mhrydain Fawr. Rydym nawr yn gweld mwy o opsiynau gwresogi a theithio sy'n cael eu pweru gan drydan, sy'n golygu felly bod trydan adnewyddadwy yn ymledu a bod y galw am ynni glân, dibynadwy a fforddiadwy yn cynyddu.**

Rhaid i ni wneud newidiadau mawr i'r system ynni er mwyn diwallu'r anghenion hyn, a symud ar gyflymder a graddfa nad yw Prydain Fawr wedi'u gweld o'r blaen. Mae'n her fawr, sy'n gofyn am ddull mwy cydlynol o weithredu.

## Beth yw'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP)?

Mae'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol yn rhan o gynllun ynni newydd a fydd ar waith ar draws Prydain Fawr. Bydd yn argymell:

- Sut mae diwallu anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol
- Ble mae angen ynni newydd, ar y tir yn ogystal â'r môr.

Yn 2024, gofynnodd llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru i NESO lunio'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol. Bydd y cynllun hwn yn helpu i sicrhau bod seilwaith ynni'n cael ei adeiladu pryd bynnag a lle bynnag mae ei angen.

Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol cyntaf yn dangos:

- Anghenion seilwaith trydan a hydrogen Prydain Fawr rhwng 2030 a 2050 a thu hwnt
- Lleoliadau posibl y seilwaith ynni newydd.

## Pam mae angen y cynllun hwn arnom

Mae disgwyl i'r galw am drydan dreblu erbyn 2050. Ond mae rhannau o Brydain Fawr eisoes yn defnyddio'r holl drydan y gall y grid ei ddarparu. Mae rhai lleoedd yn aros am gysylltiad sy'n cymryd blynyddoedd i'w gyflawni. Rhaid i ni fynd ati'n awr i gynllunio ein system ynni ar gyfer y dyfodol, i wneud yn siŵr bod ynni ar gael pan fydd ei angen a lle bynnag mae ei angen.



[Edrychwch ar ein hanimeiddiad ynghylch y Cynllun Ynni Gofodol Strategol]

Mae hynny'n golygu cynhyrchu a storio mwy o ynni o ffynonellau solar, gwynt, niwclear a hydrogen, ymysg eraill.

Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol yn rhannu Prydain Fawr yn 19 ardal a fydd yn cael eu galw'n barthau, ac yn awgrymu faint o bob technoleg sydd orau ar gyfer pob parth. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr, datblygwyr a chymunedau ynghylch anghenion ynni ar draws Prydain Fawr, ac yn help i baratoi cynlluniau hirdymor. Mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer gofynion ynni Prydain Fawr am ddegawdau i ddod.

Mae llawer o bobl wedi cyfrannu at y cynllun, gan gynnwys cynrychiolwyr ar draws diwydiannau, llywodraethau, cymdeithas, cyrff amgylcheddol, a chyrff cynrychioliadol cymunedol.

NESO
National Energy System Operator

## Cysylltiadau'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol â chynlluniau eraill

Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol yn esbonio sut mae diwallu anghenion ynni'r dyfodol. Mae hyn yn cydblethu â dau gynllun allweddol arall:

- Bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn dangos blaenoriaethau rhwydweithiau trawsyrru ar draws Prydain Fawr
- Mae ein Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (REPSs) yn canolbwyntio ar y rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan sy'n dod ag ynni o'r systemau trawsyrru cenedlaethol i'n cartrefi a'n busnesau.

## Chwe cham i lunio'r cynllun

Byddwn yn dilyn chwe cham i ddatblygu'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol. Gadewch i ni edrych ar bob cam.

- **Paratoi** - casglu data ac egluro sut byddwn yn datblygu'r cynllun


- **Modelu** - ystyried yr ardaloedd gorau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, a sut mae lleihau costau adeiladu systemau ynni. Bydd y cynllun yn cynnwys llawer o wybodaeth, gan gynnwys y galw am ynni yn y dyfodol, costau technoleg, ffyrdd gwahanol o ddefnyddio tir, a data amgylcheddol. Rydym yn cynnal llawer o brofion ac archwiliadau i wneud yn siŵr bod ein canfyddiadau'n ddibynadwy

- **Arfarnu** - canfod a phrofi opsiynau ar gyfer llwybrau i gyrraedd statws sero net erbyn 2050. Rhaid i ni wneud yn siŵr bod yr opsiynau hyn yn realistig a bod modd eu cyflawni. Byddwn wedyn yn rhannu chwe llwybr gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru

- **Ymgynghori** - bydd Ysgrifennydd Ynni'r DU yn dewis llwybr, a byddwn ninnau wedyn yn gofyn i bobl am adborth. Byddwn yn gwrando ar lywodraethau a chynrychiolwyr ar ran cymdeithas, diwydiannau a chymunedau

- **Mireinio** - asesu'r holl adborth a gafwyd, mynd i'r afael â phroblemau posibl, ac addasu'r cynllun yn ôl yr angen

- **Cyhoeddi** - gofyn i Ysgrifennydd Ynni'r DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Ofgem gymeradwyo'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol. Bydd y cynllun terfynol a gymeradwywyd yn cael ei gyhoeddi wedyn ar ein gwefan.




## Sut byddwn yn ymgynghori ar y cynllun

Mae mewnbwn rhanddeiliaid yn allweddol i'r Cynllun Ynni Gorfodol Strategol. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n weladwy, a'u bod yn rhoi cyfle i bobl siapio'r gwaith hwn ar bob cam. Byddwn hefyd yn:

- Gofyn am fewnbwn gan sefydliadau cynrychioliadol ar draws Prydain Fawr
- Siarad â phobl ar draws pob gwlad a rhanbarth, er mwyn meithrin dealltwriaeth o'n gwaith
- Cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Ynni Gofodol Strategol drafft yn ystod gwanwyn 2027.

Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol yn ystyried pob rhan o Brydain Fawr:


- Efallai y bydd rhai lleoedd yn gyfarwydd â datblygiadau ynni
- Efallai y bydd rhai yn gweld mwy o ynni'n cael ei ddatblygu
- Ac efallai y bydd eraill yn gartref i seilwaith ynni am y tro cyntaf.



Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Ynni Gofodol Strategol drafft, byddwn yn gwneud gwaith ychwanegol mewn ardaloedd lle gallai hyn effeithio arnynt. Rydym eisiau gwneud yn siŵr:

- Bod pobl yn y lleoedd hyn yn gwybod am y Cynllun Ynni Gofodol Strategol, ac yn deall beth mae'n ei olygu i'w hardal
- Bod pobl yn cael cefnogaeth i rannu eu barn, ac yn helpu i lywio ein penderfyniadau.

Byddwn yn cynnal ein hymgynghoriad yn deg ac yn dryloyw. Rydym am sicrhau bod pawb yn cael dweud eu barn.



## Dyddiadau pwysig

Byddwn yn ymgynghori ar y Cynllun Ynni Gorfodol Strategol drafft yn ystod gwanwyn 2027.

Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Ynni Gorfodol Strategol terfynol yn ystod hydref 2027.

Byddwn yn diweddaru'r cynllun bob tair blynedd i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol.

## Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm.

**neso.energy/strategic-energy-planning**

**box.sep-engagement@neso.energy**

SSEPCY01 | Mehefin 2026